

# Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 12. Newid hinsawdd

### 12.3 Newid hinsawdd fel rhan o ddatblygu cynaliadwy



Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yw Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.  
<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy>

Mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy a'r flaenoriaeth mae'n ei rhoi i ddatblygu cynaliadwy. Er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cynllun mae'n ofynnol i bob mudiad yng Nghymru ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol.

### **Defnyddio Adnoddau Cynaliadwy**

Mae Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn nodi gweledigaeth ar gyfer defnyddio adnoddau cynaliadwy:

'O fewn oes un genedlaeth rydym am weld Cymru yn defnyddio ddim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd.'

Mae hyn yn cynnwys targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o 3% y flwyddyn yn yr ardaloedd hynny lle mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cymhwysedd. Mae datblygu cynaliadwy felly'n gysylltiedig â'r angen i leihau eich ôl-troed carbon yn y trydydd sector.

### **Lles a chyfiawnder cymdeithasol**

Mae lles Cymru wrth fyw o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd yn allweddol i'r weledigaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cymunedau iach, llewyrchus, diogel a chryf gyda phawb yn gallu cael gafael ar dai boddhaol a chyfleusterau cymunedol. Mae hefyd yn hanfodol cael cymdeithas deg a chyfiawn lle caiff pob dinesydd ei rymuso i bennu ei fywyd ei hun a llywio ei gymuned.

Mae'r cysylltiad hwn rhwng lles, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol wrth fyw mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith amgylcheddol yn allweddol i ddeall sut all y trydydd sector gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy a'r agenda newid hinsawdd. Mae nifer o fudiadau trydydd sector eisoes yn gweithio ar wella lles eu cymunedau a'u buddiolwyr gan felly weithredu'n 'gynaliadwy' yn yr ystyr eithaf, bydd angen i fudiadau trydydd sector fodloni eu hamcanion craidd o fewn ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear, sydd yn syml, yn golygu lleihau ôl-troed carbon eich mudiad.

Gallwch lawrlwytho Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn

<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet>

Mae Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cydnabod y rôl hon gan y trydydd sector;

*'mae'r trydydd sector eisoes wedi cymryd camau gweithredu cymunedol, sylfaenol, graddfa eang ar y newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy.'* Maent yn awgrymu bod y mudiadau trydydd sector hynny sydd eisoes yn cymryd camau yn helpu i ysbrydoli a chymell eraill, a chydgyfrannu adnoddau ac arbenigedd.

## **Oxfam – 'Y Doesen'**

Mae Oxfam wedi creu cysyniad a phapur trafod i weld sut allwn sicrhau planed gynaliadwy a thegwch cymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth gweler:

<http://policy-practice.oxfam.org.uk/blog/2012/02/can-we-live-inside-the-doughnut-planetary-and-social-boundaries>

## **Y Siarter Datblygu Cynaliadwy**

Nod Llywodraeth Cymru yw annog a galluogi mudiadau eraill i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol. Rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy'r Siarter Datblygu Cynaliadwy.

Y Siarter:

- Nodi ein gweledigaeth o Gymru gynaliadwy;
- Cysylltu'r brif egwyddor drefniadol gyda lles hirdymor pobl a chymunedau yng Nghymru;
- Disgrifio manteision o wneud Datblygu Cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol;
- Nodi'r ymrwymiad rydych yn ei wneud drwy gofrestru;
- Egluro'r camau nesaf byddwn yn eu cymryd i gefnogi'r Siarter;
- Cofrestru ar gyfer y Siarter

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth a chyngor i fudiadau. Estynnir gwahoddiad i aelodau'r Siarter i ddigwyddiad blynyddol i rannu dysg a phrofiadau ag eraill, a dangos enghreifftiau o arfer gorau yn eu gwaith. Mae nifer o fudiadau trydydd sector wedi cofrestru ar gyfer y Siarter, yn cynnwys WCVA.

I gael rhagor o wybodaeth ar y Siarter ewch i

<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/uksusdev/sdcharter/?skip=1&lang=cy>

Mae Cynnal Cymru hefyd yn rhoi cymorth i fudiadau

[www.cynnalcyrmru.com/network/sustainable-development-charter](http://www.cynnalcyrmru.com/network/sustainable-development-charter)

## Bil Datblygu Cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddatblygu cynaliadwy yng nghyd-destun datblygu'r Bil fel bod yn hanfodol i ddiffinio llwybr datblygiad hirdymor ein cenedl. Mae'n golygu pobl iach, gynhyrchiol; cymunedau bywiog, cynhwysol; amgylchedd amrywiol a gwydn ac economi flaengar ac arloesol. Maent yn datblygu rhaglen ddeddfwriaethol i ddarparu pwerau newydd, dyletswyddau a gallu sefydliadol i ddatblygu ein nodau i feithrin Cymru gynaliadwy.

I gael rhagor o wybodaeth ar y rhaglen ddeddfwriaethol hon gweler gwefan Llywodraeth Cymru

<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/sdbill/?skip=1&lang=cy>

Cefnogodd WCVA Lywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth ar y Bil hwn i'r sector. Ewch i'n gwefan i weld y cyflwyniadau a'r adroddiad o'r Digwyddiadau Polisi Rhanbarthol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2012.


[www.wcva.org.uk/policy/dsp\\_policy\\_area.cfm?areaid=10&display\\_sitedeptid=9](http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_policy_area.cfm?areaid=10&display_sitedeptid=9)

Mae gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd hefyd yn angenrheidiol i gefnogi cymunedau cynaliadwy.

### Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p><b>Cyngor Trydydd Sector Caerdydd</b> <i>Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH</i> <b>Elusen Gofrestredig: 1068623</b></p> <p><b>Ffôn:</b> 029 2048 5722                      enquiries@c3sc.org.uk <b>Ffacs:</b> 029 2046 4196                      www.c3sc.org.uk</p>	 <p>Ffôn: 0300 111 0124 www.wcva.cymru</p>
<p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli <b>Wedi ei ddiweddarau:</b> 16/03/2012</p>	